



YMHOLIADAU I GEFNDIR TROSEDDOL YMGEISWYR

O Ebrill 2009, gofynnir i bob person a wahoddir am gyfweiliad i unrhyw swydd yng nghyflogaeth CYNNAL ddatgan a oes ganddynt gefndir troseddol ai peidio.

Cyn hysbysebu swydd, gwneir penderfyniad a yw natur y swydd yn golygu fod angen gwneud ymholiad pellach gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) am gefndir troseddol yr ymgeisydd llwyddiannus hy a yw'n swydd sy'n destun **Dadleniad**. Tybir y byddai'r swyddi canlynol yn cael eu categorio fel swyddi **Dadleniad** :

- technegwyr cynradd
- technegwyr uwchradd
- technegwyr ceblo/rhwydweithio
- technegwyr profion offer trydannol
- uwch ymgynghorwyr, ymgynghorwyr ac athrawon ymgynghorol
- staff cefnogi SIMS
- dylunwyr adnoddau rhyngweithiol (os ydynt yn ymweld ag ysgolion fel rhan o'u swydd)
- dadansoddwyr data / perfformiad ysgolion

am eu bod yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd.

Tybir na fyddai'r categorïau canlynol o weithwyr yn disgyn o fewn y categori **Dadleniad** :

- gweinyddwyr a staff swyddfa

Bydd y Swydd Ddisgrifiad a'r Hysbyseb yn cyfeirio at y ffaith fod y swydd yn swydd **Dadleniad** ac y gwneir cais i'r SCT am ddadleniad safonol ar ran y sawl a benodir. Nodir hefyd y gall ymgeiswyr ar gyfer swyddi **Dadleniad** (yn unig) gael copi o'r Côt Ymarfer y Swyddfa Cofnodion Troseddol [D]

Pob Llythyr 'Gwahodd am Gyfweiliad' i amgau -

1. Ffurflen Datgelu Troseddau (i'w dychwelyd cyn y cyfweiliad) [A]
2. Taflen Wybodaeth i Ymgeiswyr – Datgan Troseddau [B]
3. Polisi Recriwtio Cyn Droseddwyr [C]

Trafod unrhyw droseddau a nodwyd yn y cyfweiliad, a phenderfynnu a ydynt yn berthnasol ai peidio.

Penodi i'r swydd. Cynigir swyddi **Dadleniad** yn amodol i ymholiadau gyda'r SCT.

Llythyr penodi (yn nodi fod y cynnig yn amodol...) i amgau -

1. Ffurflen Gais am Ddatgelu Gwybodaeth [E]
2. Cyfarwyddyd i Ymgeiswyr ar gyfer Gwasanaeth Dadleniad y SCT [F]
3. An Applicant's Guide to Completing the CRB Application Form [G]

Ymgeisydd i gwblhau adrannau A - E
CYNNAL i lenwi adran W ac X
Gwynedd i lenwi gweddill adran Y

Angen tystiolaeth weledol o hunaniaeth yr ymgeisydd. Bydd angen gweld copiau gwreiddiol o ddogfennau, ee trwydded gyrru, tystysgrif geni, tystysgrif prodas, pasbort, dogfen yswiriant car, datganiadau banc ... a chofnodi eu manylion. Angen cyfuniad o ddogfennau – Grwp 1 / Grwp 2.

Anfon y ffurflen ymlaen i Cyngor Gwynedd i'w hardystio, llofnodi a'i phrosesu.